

Diwygiedig 2018-2033 Cynllun Datblygu Lleol

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) Adendwm Safleoedd Ychwanegol

Mawrth 2025

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2
2.	ACI o'r Safleoedd Ychwanegol.....	3
3.	Crynodeb ACI	4
4.	Y Camau Nesaf	4
	Atodiad A. Arfaniadau Safleoedd Ychwanegol.....	5

Byrfoddau

AAS	Asesiad Amgylcheddol Strategol
AC	Yr Arfarniad Cynaliadwyedd
ACI	Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig
CDLId	Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig (cyfeirir ato hefyd fel y Cynllun)
MAS	Methodoleg Asesu Safle
PEDW	Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru
WLIA	Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
YTB	Amcanestyniad Poblogaeth yn Seiliedig ar Duedd

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig (CDLIId). Mae'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig yn gynllun defnydd tir sy'n amlinellu lleoliad a nifer y datblygiadau yn Sir Gaerfyrddin am gyfnod o 15 mlynedd rhwng 2018 a 2033, a bydd yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig presennol. Trwy gydol cyfnod paratoi'r CDLI diwygiedig, y mae sawl fersiwn ohono wedi bod, mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) cysylltiedig wedi'i gynnal mewn modd ailadroddol ac integredig fel rhan o'r broses o lunio'r cynllun ers 2018.

Pwrpas yr ACI hwn yw sicrhau bod safleoedd ychwanegol a gyflwynwyd ar gyfer eu cynnwys o bosibl yn yr Ail GDLI Adneuo diwygiedig, ¹² yn dilyn llythyr a gyflwynwyd gan arolygwyr Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW), wedi cael eu hystyried yn briodol o ran eu heffaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bosibl. Ar yr adeg gyhoeddi, mae'r penderfyniad ynghylch dyrannu'r safleoedd ychwanegol hyn parhau gydag argymhelliad yr arolygwyr fel rhan o'r broses archwilio.

- 1.3 Mae'r *Adendwm Safleoedd Ychwanegol i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig* hwn yn adeiladu ar ganfyddiadau ac argymhellion yr *Adendwm i'r ACI* (Chwefror 2024), *Adroddiad yr ACI* ³ (Chwefror 2023)⁴, *Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd* (Ionawr 2020)⁵, *Adroddiad Cychwynnol AC-ASS* (Rhagfyr 2018) y Strategaeth a Ffeirir, ac ⁶*Adroddiad Cwmpasu AC-ASS* anffurfiol cynharach (Gorffennaf 2018), sy'n ofynnol o dan *Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004*⁷, *Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005*⁸ a *Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004* (y cyfeirir ato fel "y Rheoliadau" o hyn ymlaen). ⁹¹⁰ Nodir gofynion, dyletswyddau ac ystyriaethau statudol eraill sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiadau cyfannol hyn yn Adran 1.4 *Adroddiad yr ACI*. Mae hyn yn cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb.
- 1.4 Lle bo'n briodol, mae'r ddogfen bresennol yn cynnwys rhannau o'r asesiadau uchod a chroesgyfeiriadau atynt. Mae ymdrech wedi'i gwneud i osgoi ailadrodd testun atodol nad yw'n hanfodol i'r rhesymeg a'r casgliadau a wneir yma. Mae hyn er mwyn rhoi cofnod hygyrch a thryloyw o'r asesiad o'r CDLI diwygiedig drwy gydol ei baratoi. Serch hynny, rhaid peidio ag ystyried y ddogfen bresennol ar ei phen ei hun heb ystyried ymdrechion ACI cynharach.

¹ [Cynllun Datblygu Lleol 2018-2023 Cyngor Sir Caerfyrddin](#)

² [31 Ionawr 2025 - Nodyn yr Arolygydd ynghylch Tai - Archwiliad Annibynnol - PEDW](#)

³ [Adendwm i'r ACI \(Chwefror 2024\)](#)

⁴ [Adroddiad yr ACI - yr Ail GDLI diwygiedig Adneuo](#)

⁵ [Adroddiad yr AC \(Ionawr 2020\)](#)

⁶ [Adroddiad Cychwynnol yr AC \(Rhagfyr 2018\)](#)

⁷ [Adroddiad Cwmpasu yr AC \(Gorffennaf 2018\)](#)

⁸ [Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004](#)

⁹ [Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref \(Cynllun Datblygu Lleol, Cymru\) 2005](#)

¹⁰ [Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004](#)

2. ACI o'r Safleoedd Ychwanegol

- 2.1 Cyfeirir yn benodol at Adran 6.8 o *Adroddiad yr ACI* sy'n cynnwys y 'Dull o Arfarnu' a ddefnyddir i asesu safleoedd datblygu ymgeiswyr gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hystyried yn ddewisiadau amgen rhesymol. Mae cyfanswm o 30 safleoedd sy'n cynnwys dyraniadau newydd, dyraniadau rCDLI presennol gyda chynnydd arfaethedig mewn niferoedd, ac ymrwymadau â chaniatâd presennol, yn destun arfarniad¹¹ ([Atodiad A](#)). Dyrannwyd maint a sefyllfa'r safleoedd ychwanegol yn unol â'r Strategaeth a Ffefrir, gan arwain at lawer ohonynt yn cael eu canoli yn bennaf yn ardaloedd twf y sir. Oherwydd y darparwyd ar gyfer rhai safleoedd ychwanegol fel ymrwymadau gyda chaniatâd mewn grym, cyfeirir at Baragraff 6.8.10 a 6.8.11 o *Adroddiad yr ACI*.
- 2.2 Gan fod rhai safleoedd ychwanegol wedi'u darparu fel ymrwymadau gyda chaniatâd presennol, cyfeiriir at Baragraff 6.8.10 a 6.8.11 o *Adroddiad ACI*.
- 2.3 Cyfeirir yn benodol at Adran 6.9 o *Adroddiad yr ACI* (fel y'i diwygiwyd gan yr *Adendwm i'r ACI*). Mae dogfen benodol wedi'i llunio sy'n cynnwys sylwebaeth ar gyfer arfarnu pob safle ychwanegol¹². Er eglurder, nid oes newid i'r Fethodoleg Asesu Safle (MAS) ac, felly, mae holl ddyraniadau'r CDLI diwygiedig wedi cael yr un lefel o graffu o safbwynt ACI, waeth beth yw'r dyddiad asesu.
- 2.4 Yn ychwanegol at eu harfarniadau unigol, mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried unrhyw effeithiau posibl y safleoedd ychwanegol yn gyffredinol ac wrth ystyried yr effeithiau sy'n gysylltiedig â'r rhai a aseswyd yn flaenorol. Yn hyn o beth, mae eu dosbarthiad gofodol cyfunol yn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau cronol yn cael eu creu wrth ddarparu gwasanaethau a/neu gyfleusterau lleol o fewn cymuned benodol. Gan fod y safleoedd ychwanegol wedi'u dyrannu ar sail yr Opsiwn Gofodol a Ffefrir (h.y. yr Opsiwn Hybrid), cyfeirir at ganfyddiadau Adran 6.3 o *Adroddiad yr ACI* ac Adran 4.3 o *Adroddiad Cychwynnol yr AC* (y mae'r ddau ohonynt yn aros yn gyson).
- 2.5 Er gwaethaf y safleoedd ychwanegol, mae'r strategaeth Twf a Ffefrir (h.y. yr Amcanestyniad Poblogaeth yn Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd) yn aros yr un fath ac mae'r CDLId yn dal i nodi gofyniad ar gyfer 8,882 o dai erbyn 2033. Fel yr amlinellwyd yn y llythyr uchod gan PEDW, y rhesymeg dros gael safleoedd ychwanegol yw cynnal o leiaf hyblygrwydd o 10% (sy'n cyfateb i gyfanswm cyflenwad tai o 9,704) yng ngoleuni'r tangyflenwad a gofnodwyd o ddarpariaeth ar gyfer hap-safleoedd a ddyrannwyd ar ddechrau cyfnod y cynllun. *SP4*: Yn flaenorol, arfarnwyd *Dull Cynaliadwy o ddarparu Cartrefi* Newydd (sy'n cynnwys y ffigurau hyn) yn Atodiad F o *Adroddiad yr ACI*. O'r herwydd, ni fernir bod y safleoedd ychwanegol yn effeithio ar ganfyddiadau blaenorol yr Asesiad o'r Effaith ar yr iaith Gymraeg chwaith (Atodiad H o *Adroddiad yr ACI*). Ar ben hynny, cyfeiriir at Adran 5.5 o'r *Adroddiad ACI* ar gyfer gwerthuso opsiynau twf gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hystyried yn ddewisiadau amgen rhesymol.
- 2.6 Er bod maint yr effeithiau a nodwyd o ddyraniadau'r CDLId yn anochel wedi cynyddu (yn enwedig gan nad yw hap-safleoedd yn cael eu nodi yn y cynllun yn eu hanfod), ni chafwyd hyd i lwybrau effaith ychwanegol (ac eithrio'r rhai a nodwyd yn flaenorol yn Adran 6.10 o *Adroddiad yr ACI*). Ystyrir bod yr effeithiau cyfatebol a ragwelir yn cael eu lliniaru trwy fesurau presennol a amlinellwyd.

¹¹Cyfeirir at y rhain ar y cyd fel y safleoedd ychwanegol.

¹² Sylfaen Dystiolaeth Safleoedd Ychwanegol (Mawrth 2025)

3. Crynodeb ACI

- 3.1 Mae'r holl gynigion a dyraniadau sydd wedi'u cynnwys yn y CDLI Diwygiedig yn parhau i gael eu hystyried yn unol â'r Rheoliadau. O ran crynhoi'r materion hynny a aseswyd drwy hyn ochr yn ochr â darpariaethau eraill y CDLId a arfarnwyd yn flaenorol, mae'r sylwadau a nodwyd o fewn ymdrechion blaenorol yr ACI gan gynnwys Adran 6.9, Adran 6.10, a Phennod 7 *Adroddiad yr ACI* (fel y'i diwygiwyd gan *Amendwm yr ACI*) yn aros yn gyson.

4. Y Camau Nesaf

- 4.1 Bydd y ddogfen hon yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Gellir edrych ar y CDLI diwygiedig a'r dogfennau cysylltiedig hefyd (gan gynnwys yr ACI yn ei gyfanrwydd) [ar-lein](#) neu mewn [Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid](#) a llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod yr oriau agor a hysbysebir.
- 4.2 Gellir gwneud eich sylwadau ar-lein drwy'r [Dudalen Ymgynghori](#). Fel arall, mae ffurflenni ymateb ar gael ar gais.

I anfon eich sylwadau yn ysgrifenedig, ysgrifennwch at:

Polisi Strategol a Chreu Lleoedd
Lle a Seilwaith
3 Heol Spilman
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 1LE

Neu e-bost: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk

Nodwch 'ISA' yn y llinell testun.

- 4.3 Rhaid i sylwadau ddod i law erbyn y dyddiad a'r amser priodol a nodwyd ar y Dudalen Ymgynghori. Mae'n bosibl na fydd sylwadau sy'n cael eu cyflwyno ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.
- 4.4 Er mwyn sicrhau bod gofynion y Rheoliadau yn cael eu bodloni, bydd angen ystyried yr holl newidiadau pellach i'r CDLI diwygiedig yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Arolygydd. Felly, bydd ACI ar unrhyw Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Atodiad A. Arfaniadau Safleoedd Ychwanegol

A.1 Cyflwynir crynodeb o'r arfarniad unigol o safleoedd ychwanegol yn Nhabl 1. Er eglurder, mae'r safleoedd ychwanegol hyn yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u sgrinio yn Nhabl 23 o Adroddiad yr ACI (fel y'i diwygiwyd gan Adendwm yr ACI a gyhoeddwyd yn ddiweddarach ym mis Chwefror 2024) ac, ar adeg ysgrifennu, nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r CDLI wedi digwydd. Gweler Tabl 21 o Adroddiad yr ACI ar gyfer y meini prawf asesu a addaswyd o'r [Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3](#). Gellir dod o hyd i sylwebaeth safle-benodol o fewn y Sylfaen Tystiolaeth Safleoedd Ychwanegol (Mawrth 2025)

Tabl 1 – Crynodeb ACI o safleoedd ychwanegol fesul clwstwr.

Cyf. Safle	Enw	ISA1	ISA2	ISA3	ISA4	ISA5	ISA6	ISA7	ISA8	ISA9	ISA10	ISA11	ISA12	ISA13	ISA14	ISA15
Clwstwr 1																
PrC1/(i)	Yr Hen Lidl, Heol y Prior, Caerfyrddin	+	-	--	+	+/-	+	++	-	+	++	+	+	+	+	++
PrC1/(ii)	Tir i'r de o Bant Glas, Caerfyrddin	+	-	+/-	+	+/-	-	--	0	+/-	++	+	-	+	+	++
PrC1/(iii)	Tir cyfagos 93 a 94 Ffordd Abergwili, Caerfyrddin	+	-	+/-	+	+/-	+/-	--	0	+/-	++	+	+	+	+	++
PrC1/(iv)	Tir oddi ar Heol Tre-loan, Caerfyrddin	+	-	+/-	+	+/-	-	--	0	+/-	++	+	+	+	+	++
SeC1/(i)	Ceffyl Du, Meinciau	+	-	+/-	+	+/-	+/-	--	0	+/-	++	+	+	+	+	++
SuV2/(i)	Tir yn Maes y Meillion	+	-	+/-	+	+/-	+	--	0	+/-	++	+	+	+	+	++
Clwstwr 2																
PrC2/(i)	Tir ger Maes yr Haf, Pwll	+	-	+/-	+	+/-	+/-	--	0	+/-	++	+	+	+	+	++
PrC2/(ii)	Tir yng Nghefncaeau	+	-	+/-	+	+/-	+/-	-	0	+/-	++	+	+	+	+	++
PrC2/(iii)	Tir yn Heol Pendderi	+	-	+/-	+	+/-	+/-	-	0	+/-	++	+	+	+	+	++
PrC2/(v)	Tir ger Heol y Mynydd, Bryn	+	-	+/-	+	+/-	+/-	-	0	+/-	++	+	+	+	+	++
SeC3/(i)	Tir gyferbyn Parc Pendre, Cydweli	+	-	+/-	+	+/-	+/-	-	0	+/-	++	+	+	+	+	++
SeC3/(ii)	Tir yn Stryd Monksford, Cydweli	+	-	+/-	+	+/-	+/-	-	0	+/-	++	+	+	+	+	++
SeC6/(i)	Tir oddi ar Heol Y Parc	+	-	+/-	+	+/-	+/-	--	0	+/-	++	+	+	+	+	++
SeC6/(ii)	Garej Fforest	+	-	+/-	+	+/-	+/-	++	0	+	++	+	+	+	+	++
SeC6/(iii)	Tir yn Heol Fforest	+	-	+/-	+	+/-	+/-	-	0	+/-	++	+	+	+	+	++
SeC7/(i)	Tir ger Heol Pontardulais	+	-	+/-	+	+/-	+/-	-	0	+/-	++	+	+	+	+	++

CDLId Wedi'i Adneuo 2018-2033

CDEBU WEDD / Ffyrddau 2016-2020																
Cyf. Safle	Enw	ISA1	ISA2	ISA3	ISA4	ISA5	ISA6	ISA7	ISA8	ISA9	ISA10	ISA11	ISA12	ISA13	ISA14	ISA15
Clwstwr 3																
PrC3/(i)	Gwaith Brics Emlyn, Pen-y-groes	+	-	+/-	+	+/-	+/-	--	0	+/-	++	+	+	+	++	++
PrC3/(ii)	Tir ger Pant y Blodau	+	-	+/-	+	+/-	+/-	-	0	+/-	++	+	+	+	+	++
PrC3/(iii)	Tir tu cefn 10-12 Heol Norton	Ddim yn berthnasol gan fod y safle yn cael ei adeiladu														
PrC3/(iv)	Tir ger Maes Ifan, Heol Maescwarrau	+	-	+/-	+	+/-	+	-	0	+/-	++	+	+	+	+	++
PrC3/(ix)	Breakers Yard, Gorslas	+	-	+/-	+	+/-	+/-	++	0	+	++	+	+	+	+	++
PrC3/(v)	Tir oddi ar Heol Parcdir, Penybanc	+	-	+/-	+	+/-	+	-	0	+/-	++	+	+	+	+	++
PrC3/(vi)	Tir gyferbyn Plough and Harrow	Ddim yn berthnasol gan fod y safle yn cael ei adeiladu														
PrC3/(vii)	Tir oddi ar Dôl y Dderwen, Myddynfych, Rhydaman	+	-	+/-	+	+/-	+/-	-	0	+/-	++	+	+	+	+	++
PrC3/(viii)	Tir tu cefn 108 - 114 Heol Waterloo, Penygroes	+	-	+/-	+	+/-	+/-	-	0	+/-	++	+	+	+	+	++
SuV25/(i)	Cysgod yr Eglwys, Llannon	Ddim yn berthnasol gan fod y safle yn cael ei adeiladu														
Clwstwr 4																
SuV37/(i)	Hen Ysgol Coedmor, Cwmann	+	-	+/-	+	--	+/-	+	0	+/-	++	+	+	+	+	++
Clwstwr 5																
SeC15 (i)	Tir oddi ar Ffordd Cilycwm	+	-	+/-	--	--	+/-	--	0	+/-	++	+	+	+	+	++
Clwstwr 6																
SeC19/(i)	Tir ger Y Beeches	+	-	+/-	--	--	+/-	--	0	+/-	++	+	+	+	+	++
SuV59/(i)	Gogledd Ddwyrain Ysgol Bancyfelin	+	-	+/-	-	--	+/-	-	0	+/-	++	+	+	+	+	++